**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Datblygu Polisi'r Economi, yr Amgylchedd ac Isadeiledd

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau 21 Hydref 2021 am 2.00pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd C Anderson (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | P Downing | P R Hood-Williams |
| P K Jones | W G Lewis | P Lloyd |
| P M Matthews | T M White | |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Caritas Adere | Uwch-gyfreithiwr |
| David Bawden | Swyddog Cwricwlwm 14-19 oed |
| Helen Morgan-Rees | Cyfarwyddwr Addysg |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Nia Pugh | Prif Swyddog Cyllid Allanol |
| Elliott Williams | Rheolwr Cyllid Allanol |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Y Cynghorydd: Y Cynghorydd Mike Durke (gwahoddwyd ar gyfer cofnod rhif 18)

---

## 16 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 17 Cofnodion

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor Datblygu Polisi'r Economi, yr Amgylchedd ac Isadeiledd a gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2021 fel cofnod cywir.

## 18 Y diweddaraf am y Rhaglenni Cyflogadwyedd

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid Allanol adroddiad er gwybodaeth a oedd yn manylu ar raglenni cyflogadwyedd, sgiliau a hyfforddiant allweddol sy'n cael eu darparu gan Gyngor Abertawe. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r cyflawniadau hyd yma ac yn tynnu sylw at gyfleoedd a heriau y dylid eu hystyried wrth ddatblygu a sicrhau cyllid ar gyfer prosiectau olynol, cyllid yn dilyn gadael yr UE.

Nododd aelodau y cefndir a’r cyd-destun, prosiectau economaidd a chyflogadwyedd cyfredol (y manylir arnynt yn Atodiad A), materion ac allbynnau a chyfleoedd a heriau.

Mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau, dywedodd swyddogion y canlynol:

1) derbynnir £2.5m y flwyddyn drwy arian grant a ddefnyddir ar gyfer staffio prosiectau a chymwysterau.
2) Er bod gwerth mewn blaengynllunio er mwyn datblygu polisi cyn i'r cyllid ddod i ben, nid yw cyllid grant yn y dyfodol yn hysbys. Gallai gweithgorau gael eu cynnal yn nghanol 2022 i bennu ffordd ymlaen. Fodd bynnag, o ystyried yr etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022, byddai angen i'r PDP ystyried penderfynu ar y pwnc hwn ar ôl Mai 2022.
3) Mae sgiliau a gafwyd o wybodaeth am y farchnad lafur yn sail i gynllun sgiliau cadarn. Mae Bwrdd Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol (PDSRh) Trefniant Rhanbarthol Talent a Sgiliau'r Fargen Ddinesig yn cydlynu'r wybodaeth ac yn asesu'r gofynion ar gyfer y rhanbarth.
4) Gwnaed cynnydd gydag ysgolion a sefydliadau addysgol ôl-16 er mwyn mynd i'r afael â'r prinder sgiliau a nodwyd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu cyflwyniad addysgiadol.

**Penderfynwyd:**

1) Cynnull cyfarfod ar y cyd rhwng PDC yr Economi, yr Amgylchedd ac Isadeiledd a’r PDC Addysg i archwilio'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn perthynas â phrinder sgiliau ac ymateb ysgolion a sefydliadau addysgol ôl-16.

Diolchodd y cadeirydd i'r swyddogion am eu hadroddiad addysgiadol.

**Penderfynwyd** nodi'r adroddiad.

## 19 Cynllun Gwaith 2020/2022

Cyflwynodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2020-2022.

Trafododd yr aelodau'r pynciau i'w trafod yng nghyfarfodydd y dyfodol.

**Penderfynwyd:**

1) Ailenwi eitem y Cerbydlu Gwyrdd a Llwyd yn 'Strategaeth Cerbydau Allyriadau Tra Isel'.
2) Nodi cynllun gwaith 2020-2022.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.01pm